

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD YN YSGOL LLANDDOGED, LLANDDOGED NOS LUN 26ain Mawrth , 2018.

PRESENNOL

Cyng. Hefin Martin (Cadeirydd), Cyng. Eifion Williams, Cyng. John Owen, Cyng. Alun Morris, Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Arwel Ll.Jones, Cyng. Mike Rayner, Delyth Algeri (clerc).

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Dylan Jones, Cyng. Austin Roberts

Cadarnhau'r Cofnodion

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 26ain, Chwefror, 2018.

Materion yn codi o'r cofnodion

YSWIRIANT AR Y DIFFIBLIWR

Clerc heb dderbyn gwybodaeth ar bwy sydd yn gyfrifol i yswirio'r diffibliwr yn Llanddodged. Bydd y clerc hefyd yn gwneud ymholiad gyda'r cwmni yswiriant newydd.

CYNLLUNIO

1.Cais Rhif 0/44928 - Mr Wyn Roberts, Farm Yard, Ffordd Tyrpeg Uchaf i Nant Mawr, Llangernyw LL26 ONT- Cael gwared ar sied ac adeiladu sied amaethyddol newydd yn ei lle.

Trafodwyd y cais cyllunio Farm Yard a nododd ambell i gynhorwyr eu bod wedi cael trafferthion yn agor ambell i ddogfennaeth sydd yn cyd fynd gyda'r cais yma ac o ganlyniad i hyn fod y pwyllgor ddim yn gallu dod i benderfyniad ar y cais. Pasiwyd i'r clerc gysylltu gyda swyddog cynllunio Cyngor Conwy gyda'r pryderon.

2.Cais rhif 0/44889 – Mr Alastair Bartholomew, Maenan Wood, Maeana – Adeiladu Trac(Caniatad Coedwigaeth ymlaen llaw).

Penderfynwyd a phasiwyd fod dim gwrthwynebiad i'r cais yn coedwigaeth Maenan.

3.Cais Rhif 0/44920 - Mr Gareth Hughes, Pant yr Ych Bach, Maenan - lleoli carafán sefydlog mewn ardal sy'n cael ei defnyddio fel storfa ar hyn o bryd, at ddibenion byw er mwyn i mi allu edrych ar ôl y stoc. Trafodwyd y cais cynllunio Pant yr Ych Bach Maenan.

YSWIRIANT Y CYNGOR

Nododd y clerc fod y cwmni newydd Yswiriant y Cyngor Cymuned yn hapus yswirio maes parcio Cadair Ifan Goch a Cae Chwarae Ysgol Maenan ond roedd ganddynt pryder fod cerbydau/peiriannau amaethyddol wedi parcio yn sefydlog ym Maes Parcio Gegin Wen Llanddodged.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL LLANRWST 2019

Derbyniwyd gwybodaeth fod y pwyllgor apêl Eisteddfod Llanrwst 2019 ardal Llanddodged a Maenan wedi codi swm sylweddol yn dilyn y Cyngerdd yn ddiweddar yn ysgol Llanddodged a bod yna daith gerdded wedi ei drefnu ar gyfer y 25ain o Fawrth yn ardal Maenan.

YSGOL GYNRADD LLANDDOGED

Cafwyd adroddiad ar materion diweddera Ysgol Llanddoged gan Cyng Nerys Dobson y cynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar bwyllgorau Llywodraethwyr yr ysgol.

CEISIADAU CYMORTH ARIANNOL

1. Llythyr cais arainnol gan Ambiwylans Awyr Cymru . Pasiwyd i adael y llythyr ar y bwrdd a thrafod y cais yn y cyfarfod nesaf.

GOHEBIAETH

1. Llythyr gan yswiriant y Cyngor.
2. Llythyr Un Llais Cymru cais i adnewyddu tal aelodaeth 2017/18.
3. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Gwybodaeth am ymgynghoriad diwygiedig ar Orchymyn Gwarchod Diogelu Mannau Cyhoeddus Rheoli CŵN.

CYNNAL A CHADW

- 1) Cangen yn gwyro i'r ffordd ac yn bachu mewn cerbydau trymion rhwng Carreg Ednyfed a Chae Brychiad.
- 2) Angen llenwi biniau halen wrth Bryn Rhydd a Tyddyn Frencher Maenan a rhai eraill o gwmpas yr ardal.
- 3) Twll yn y ffordd wrth Maes Bach, Ffordd Trwyn Swch, Llanddoged.
- 4) Twll yn ffordd rhwng Aneddle a Tŷ Gwyn Llanddoged.
- 5) Tyllau yn y ffordd ar y ffordd o'r A470 i fyny hyd at Y Felin, Maenan.
- 6) Carreg wedi disgyn i'r ffos ar allt Cae Brychiad, Ffordd Llanddoged, Llanddoged.
- 7) Tyllau yn y ffordd rhwng Ysgol Maenan a Hanner Ffordd, Maenan.